CYLCHLYTHYR
RHIFYN 06 • MAWRTH 2023

CARFAN GOFAL PLANT RhCT

SHWMAE A CHROESO

I RIFYN Y GWANWYN EIN CYLCHLYTHYR.

Mae'r dyddiau'n para'n hirach ac rydyn ni ar ein ffordd i dywydd cynhesach eto!

Diweddariad gan y garfan gofal plant

Rydyn ni'n brysur yn gweithredu ar y blaenoriaethau a gafodd eu nodi yng nghynllun gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Mae modd darllen y cynllun yma: **www.rctcbc.gov.uk/ADdGP**.

Mae ffocws y tymor hyd yma wedi bod ar ofal plant y tu allan i oriau ysgol yn ardal Cwm Cynon a denu gwarchodwyr plant newydd.

Rydyn ni'n awyddus i gefnogi lleoliadau a nanis heb eu cofrestru. Mae modd i hyn fod drwy gymorth 1 i 1 i gofrestru gydag AGC, cyngor busnes, mynediad at hyfforddiant neu eu cyfeirio nhw at asiantaethau eraill. Cysylltwch â ni os hoffech chi gymorth neu rhowch wybod i ni am unrhyw leoliadau/nanis eraill a fyddai eisiau bod yn ein rhestr gyfathrebu.

Fel bob amser, rydyn ni wedi ymrwymo i ddenu a chefnogi gwarchodwyr plant newydd. Mae gyda ni becyn cymorth wedi'i deilwra ac rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo gwarchod plant fel gyrfa. Os ydych chi'n adnabod unrhyw un sydd â diddordeb mewn dod yn warchodwr plant, rhowch ein manylion ni iddyn nhw.

Ehangu Gwasanaeth Gofal Plant Dechrau'n Deg

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg fesul cam. Y nod yn y pen draw yw cynnig lle gofal plant i bob plentyn rhwng 2 a 3 oed, o'r tymor yn dilyn eu penblwydd yn ddwy oed.

Yn RhCT rydyn ni'n paratoi ar gyfer hyn ac mae gyda ni restr o ddarparwyr sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer gofal plant Dechrau'n Deg. Ar hyn o bryd mae 55 o leoliadau wedi'u cymeradwyo, gyda 21 ohonyn nhw'n cynnig lleoedd cyfrwng Cymraeg. Os ydych chi'n ddarparwr gofal plant neu'n warchodwr plant, mae modd i chi wneud cais i ymuno drwy gofrestru ar eDendroCymru. Mynegwch ddiddordeb mewn **ITT–92447** ac ateb a chyflwyno'r cwestiynau. Os ydych chi eisiau rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Helen Fisher-Holland** ar **07824 496497**.

Dechrau'n Deg
Flying Start

Carfan Gofal Plant yn RhCT
Childcare Team in RCT

Cynnig Gofal Plant Cymru
The Childcare Offer for Wales
Addysg gynnar a gofal • Early education and care

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Rhondda Cynon Taf
Family Information Service

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHONDDA CYNON TAF

52025-23

Cynnig Gofal Plant Cymru

Mae'r system genedlaethol newydd bellach ar waith. Dylai'r rheiny ohonoch chi sydd â phlant sydd yn gymwys ers mis Ionawr 2023 fod yn hawlio'ch cyllid drwy'r system yma. Er gwaethaf ambell i broblem gychwynnol, mae'n ymddangos ei fod e'n gweithio'n dda. Os oes unrhyw adborth gyda chi, rhowch wybod i ni a bydd modd i ni ei gyfleu i rywun yn Llywodraeth Cymru.

Ambell beth i'w gofio:

- **Mae cyllid drwy'r system newydd yn cael ei ddarparu mewn ôl-ddyledion, ond mae modd ei hawlio'n wythnosol o 7pm bob nos Wener.**
- **Unwaith y byddwn ni wedi cymeradwyo hawliadau rhieni, rhaid sefydlu cytundeb ar y system gyda chi ar gyfer yr oriau tymor a gwyliau sydd wedi'u cytuno. Rhaid gwneud hyn erbyn y dydd Sul bob wythnos er mwyn hawlio cyllid o'r dydd Llun canlynol.**
- **Rhaid i chi gymeradwyo cytundebau erbyn y dydd Iau bob wythnos er mwyn i'r cytundeb hwnnw ymddangos ar eich hawliad ar y nos Wener.**
- **Cofiwch, mae angen i chi barhau i hawlio ar yr hen system ar gyfer unrhyw blant a fanteisiodd ar y cynnig cyn 31 Rhagfyr 2022.**
- **Cofiwch bod modd i blant fanteisio ar y cynnig yn ystod y gwyliau, hyd yn oed os ydyn nhw'n mynychu'r ysgol llawn amser (hyd at y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd nhw'n 4 oed).**

Sesiynau galw heibio

Rydyn ni nawr yn cynnig sesiwn galw heibio i rieni a darparwyr bob wythnos. Dewch draw i'n gweld ni os oes gyda chi unrhyw gwestiynau. Cofiwch annog rhieni i ddod os oes angen ein cymorth arnyn nhw gydag unrhyw agwedd o'r cynnig.

Llyfrgell Pont-y-clun
Heol-y-Felin, Pont-y-clun, CF72 9BE
Dydd Mawrth cyntaf bob mis | 2pm-6pm

Llyfrgell Treorci
Station Road, Treorci, CF42 6NN
Ail ddydd Mawrth bob mis | 2pm-6pm

Llyfrgell Aberdâr
Y Stryd Las, Aberdâr, CF44 7AG
Trydydd ddydd Mawrth bob mis | 2pm-6pm

Llyfrgell Pontypridd
1 Llys Cadwyn, Stryd y Taf, Pontypridd, CF37 4TH
Pedwerydd ddydd Mawrth bob mis | 2pm-6pm

Swyddfeydd y Cyngor
Tŷ Trevithick, Abercynon, CF45 4UQ
Bob dydd Gwener 9am–1pm. Rhaid trefnu apwyntiad (ffoniwch 03000 628628)

Hyrwyddwch y cynnig i rieni newydd a chysylltu â ni os hoffech chi unrhyw ddeunydd hyrwyddo i arddangos yn eich lleoliadau neu ei ddosbarthu i rieni.



Ymgysylltu â darparwyr a rhieni

Mae ein carfan ni'n parhau â'i hymweliadau â grwpiau i rieni trwy gydol mis Ionawr i fis Mawrth, felly dewch draw i'n gweld ni neu rhowch wybod i'ch teuluoedd. Os ydych chi'n cynnal grŵp Rhieni a Phlant/Ti a Fi, cysylltwch â ni a byddwn ni'n hapus iawn i'ch ychwanegu chi at ein rhestr ni. Mae amserlen o'n hymweliadau ni'n cael ei rhannu ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol bob mis.

Bydd ein achlysur ymgysylltu hybrid nesaf yn cael ei gynnal ar **11 Mai 2023**. Hwn fydd ein hail achlysur lle byddwn ni'n gobeithio eich gweld chi wyneb yn wyneb neu drwy Microsoft Teams os dyna sydd orau i chi. Bydd siaradwyr gwadd, gan gynnwys cynrychiolydd o Goleg y Cymoedd yn siarad am brentisiaethau gofal plant a gwybodaeth ar ennill cymhwyster Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant lefel 3, 4 a 5. Bydd y garfan teuluoedd cymhleth newydd yn siarad am bontio ADY rhwng gofal plant cyn oed ysgol a dosbarthiadau meithrin yn yr ysgol. Byddwn ni hefyd yn clywed y newyddion diweddaraf gan ein carfanau ac yn eich diweddaru chi ar gynllun grantiau cyfalaf bach y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Cadwch lygad allan am fanylion ar sut i gadw lle yn gynnar ym mis Ebrill.

Hyfforddiant



Mae ein cyrsiau hyfforddi gorfodol, megis Cymorth Cyntaf, Hylendid Bwyd, Diogelu a Rheoli Ymddygiad Heriol wedi'u cynllunio a'u trefnu ar gyfer eleni. Bydd modd cadw lle ar gyfer y rhain ddechrau mis Mawrth 2023, felly cadwch lygad ar eich e-byst ac ar Facebook.

Mae o leiaf 25% o hyfforddiant yn dal i fynd i wastraff, naill ai oherwydd diffyg presenoldeb neu drwy beidio â rhoi o leiaf 48 awr o rybudd i ni ganslo. Gyda chyllidebau awdurdodau lleol dan bwysau, rhaid i ni ddangos bod ein cyllid ni'n cael effaith. Os does dim modd i chi fynychu, canslwch eich lle cyn gynted â phosibl fel bod modd i ni ei gynnig i rywun arall a sicrhau bod pob cwrs yn llawn.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Cofiwch gadw'ch cyfrif DEWIS yn gyfredol ac yn weithredol. Rydyn ni'n e-bostio ein gwybodaeth ni i gyd i restr ddosbarthu'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, felly os dyw eich busnes chi ddim wedi'i restru ar gronfa ddata'r GGD fyddwch chi ddim yn derbyn gwybodaeth bwysig oddi wrthyn ni. Byddwch chi hefyd yn colli cyfle i hysbysebu **AM DDIM** i rieni sy'n defnyddio cronfa ddata'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i chwilio am ofal plant yn eu hardal leol nhw.

Bydd angen adnewyddu eich cyfrif DEWIS bob 6 mis i sicrhau bod eich manylion chi i gyd yn gyfredol. Os na fyddwch chi'n adnewyddu eich cyfrif, bydd eich adnodd chi'n dod i ben a fydd dim modd i'r cyhoedd ei weld rhagor.

I gofrestru neu fewngofnodi i'ch cyfrif chi, dilynwch y ddolen yma: **https://www.dewis.cymru/secure/login.aspx**.

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau neu os oes angen cymorth arnoch chi gyda'ch cyfrif DEWIS, anfonwch e-bost at: **GwasanaethGwybodaethiDeuluoedd@rctcbc.gov.uk**.

Mae'r Adran Mynediad a Chynhwysiant yn cynnal rhaglen barhaus sy'n cynnig hyfforddiant ADY i ddarparwyr.

Mae Fforwm CADY y Blynyddoedd Cynnar yn parhau i redeg ac mae disgwyl i'r gyfarfod nesaf gael ei gynnal dros Microsoft Teams **ddydd Iau 4 Mai, 1.30–2.30pm**. Bydd taflen yn cael ei dosbarthu yn fuan gyda rhagor o fanylion. Dyma gyfle gwych i ofyn cwestiynau a rhannu unrhyw broblemau ac arferion da gyda'ch cyfoedion.

Mae Fforwm y Blynyddoedd Cynnar yn fforwm amlasiantaeth sy'n cwrdd bob mis i drafod plant a allai fod ag ADY. Mae modd i chi atgyfeirio unrhyw blentyn sy'n peri pryder at y fforwm. Rydyn ni wedi e-bostio'r dyddiadau atoch chi a'u rhannu ar ein tudalen Facebook.

I gadw lle ar hyfforddiant, ymuno â Fforwm y CADY neu am ragor o wybodaeth am y Fforwm Blynyddoedd Cynnar, e-bostiwch Ryan Phillips: **GwasanaethGwybodaethiDeuluoedd@rctcbc.gov.uk**. Os dydych chi ddim wedi atgyfeirio i Fforwm y Blynyddoedd Cynnar o'r blaen, e-bostiwch **luci.hooper@rctcbc.gov.uk** am ragor o wybodaeth.

Facebook

Cofiwch fod ein tudalen Facebook breifat yn ffordd wych o weld newyddion diweddaraf y garfan a phartneriaid eraill.

I ymuno, ewch i...

https://www.facebook.com/groups/childcareteamRCT neu chwiliwch am **'RCT Childcare Team'** yn y cyfleuster chwilio ar Facebook.

Fforwm Gwarchod Plant

Cofiwch, mae grŵp Facebook preifat wedi'i sefydlu er mwyn i warchodwyr plant gyfnewid syniadau, cefnogi ac ysbrydoli ei gilydd i ddarparu cyfleoedd chwarae penagored. Mae'n ffordd wych o gysylltu â'ch cyfoedion, felly os ydych chi'n warchodwr plant yn RhCT, chwiliwch am: ***Curious Adventures, Learning Through Play***.

Os dydych chi ddim eisiau derbyn y cylchlythyrau yma rhagor, rhowch wybod i ni ac fe wnawn ni eich tynnu chi oddi ar ein rhestr ddosbarthu.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

Picnic y Tedis

Mae dyddiad Picnic y Tedis eleni wedi'i gadarnhau:

Dydd Gwener 23 Mehefin 2023

Lleoliad:

Parc Coffa Ynysangharad,

fel o'r blaen

10am-2pm

Bydd rhagor o wybodaeth ar gael cyn hir



Cysylltwch â ni...

01443 570048

www.rctcbc.gov.uk/carfangofalplant

Carfan Gofal Plant:
CarfanGofalPlant@rctcbc.gov.uk

Cynnig Gofal Plant Cymru (Darparwyr yn unig):
DarparwyrCynnigGofalPlant@rctcbc.gov.uk

RCT Childcare Team